3.68

# Duchangerdd

## I'R

# DDAU WYNEBOG.

Y FEIRNIADAETH.

*Y Llew Coch.*—Can dda iawn yn y *comic style*. Pur ddarluniadol ei darfeliad, a'i chrebwyll yn rhagorol, ond dylasai yr awdwr gofio cadw at yr un mesur ar hyd ei gan. Nis gwn pa beth yw yr ysfa sydd ar y beirdd yn bresenol am amrywiaeth mesur mewn rhyw ganau byrion o'r fath.

CLWYDFARDD.

Y Diafol ddisgynodd i'r ddaear,
  Ac yna fe hauodd ei had;
Ni welwyd erioed fath gyfnewid,
  Pan gaed yr hyll fwystfil yn dad;
Cyfnewid a wnaeth ar wynebau.—
  Aeth arnynt bob agwedd a dull;
Miliynau debygent i'r bwystfil,
  A hyny'n anferthol o hyll.

Eu hysbryd a aeth yn afrosgo,
  Heb arnynt un rëol na threfn;
Ond rhedeg, a'u hwyneb i waered,,
  Ffordd Satan sy'n llydan a llefn;
Fel dyfroedd ar ben goriwaered,
  Yn prysur ymarllwys i'r nant,
Mae'r diafol yn wreiddiol ddrygionus:
  Naturiol ddrygionus yw'r plant.

X20520989X

Mae nodwedd y plant yn fastardaidd,—
   Cymysgedd o ddiafol a dyn;
Rai prydiau ymrithiant yn ddynol,
   Bryd arall fel diafol ei hun.
A welsoch chwi Wil-y-ddau-wyneb?
   Os gwelsoch, synasoch, 'rwy'n siwr,
Rhowch osteg am funud cewch glywed
   Rhyw 'chydig o hanes y gŵr.

Fel dyn yr oedd Wil yn dra glandeg,
   Pob lodes oedd hoffus o'r llangc;
Nis gall'sai rhïanod diniwaid
   Byth ddeall fod ynddo'r fath strangc;
Roedd Wil yn ddeallus i dwyllo,
   A dallu trigolion ei wlad;
Fe dybiodd, ryw ddydd, yn ei lwyddiant,
   Y twyllai fe'r diafol, ei dad.

Fe wisgai Wil yn drefnus o'i goryn hyd ei draed,
A'i fochau fel dau rosyn, yn goehion, megis gwaed,
P'le bynag yr ymwelai, nid oedd ei fath i'w gael;
Edrychai llangciau glandeg wrth Wil yn hynod wael.

Ei wên oedd ar ei enau, a'i lais arafaidd mwyn,
Lled fainion ei lygadau, a theneu oedd ei drwyn;
Pob peth ar Wil yn gweddu tra byddai'n gwneud ei *dric*;
Eich twyllo wnai mor gyflym cyn gallech ddwedyd "*Tic.*"

Daeth Wil i sylw'r mawrion, yr oedd yn ddyn mor hardd,
A mawr yn mysg llenorion, fe fynai fod yn fardd,
Ac megis dyn dysgedig, yn drwyadl mewn dwy iaith,
Ac hefyd mewn celfyddyd yn gymwys i bob gwaith.

Pan aeth yn farnwr 'Steddfod, ni cha'dd erioed fath *sport*;
Pe cawsai'r gwaith yn fynych galwasid Wil yn *Lord*,
Fe gyfansoddai 'i hunan, A'i waith ro'i ar y cy'd;
Yn rhanog â'i gyfeillion, fe enillai'r gwobrau i gyd.

W.44 35(P)

Ei ffordd ef gyda'i fasnach oedd prynu eiddo gwael,
A thaeru wrth eu gwerthu nad oedd rhai gwell i'w cael;
Wrth glywed Wil yn brolio, ar blant y byd â'i blys;
Ni chai un lodes basio na chodai Wil ei fys.

Os clywai fod ymrafael mewn cyfraith rhwng rhyw ddau,
Cyttunai Wil, am arian, i ddwyn tystiolaeth gau;
Mewn Sessiwn tyngai 'nudon, heb gofio 'r farn a fydd,
Y diwrnod daw i'r amlwg ei dywll i oleu'r byd.

Pan 'r elai Wil i'r Capel, fe fyddai'n bloeddio "Amen,"
A bechgyn y gymdogaeth yn chwerthin am ei ben;
Mae llawer un o'r rhei'ny a'u deall yn bur dda;
Hwy welant o flaen llawer yn mysg y defaid g'nâ.

Daeth Wil i fod yn flaenor, i arwain Eglwys Dduw,
Fel llong ar fôr tymhestlog, a Wil oedd wrth y llyw;
A dringodd i'r Areithfa, Bwriadodd fyn'd yn fawr,
Heb wel'd yr erchyll godwm pan fyddai'n cwympo i lawr.

Fe'i clywyd mewn *Societ* yn adrodd profiad gwych;
Meddyliwyd y pryd hwnw na's gwelsid mono'n sych;
Ond rhyfedd! wedi hyny, mor fuan troes yr hîn,—
Fe welwyd Wil gan syched, 'roedd fel y gorsen grîn.

Rhyw noson aeth i garu at fenyw hardd ei llun;
Gwell f'asai i'r lodes drwstan na welsai 'rioed mo'r dyn
Pan gafodd Wil ei neges, dechreuodd ddangos gwg;
Pan welodd Nel ei chariad 'roedd fel yr ysbryd drwg.

Rhoe Wil ei wyneb goreu i fyn'd i garu merch,
Ymddangos wnai yn hwnw fel llangc yn llawn o serch;
Deallai'r ffordd i dwyllo lodesi glana'r wlad,
Pan ddelai yn galedi i'r Babi nid oedd dad.

Ond Wil ddechreuai wadu, gan dyngu llyfon hyll,
Na welwyd neb yn hollol, ond diafol, yr un dull;
A'i blant 'run modd ag yntau, a'u troiau fel eu tad;
I Wil fe roddes gyngor i fyn'd i ffordd o'r wlad.

I'r diafol bu yn ufudd,—aeth i Australia bell,
Gan goelio tad y celwydd fod hyny'n ganmil gwell;
Gwrthododd ddeddf oddefol i ddofi tân ei chwant,
Ac hefyd ddeddf naturiol, sef moesol fagu plant.

Er cymaint ei ddysgeidiaeth, ni ddysgodd ofni Duw:
Mae'n amlwg, erbyn heddyw, bod Satan wrth ei lyw;
Cyflawni 'roedd ei ddeddfau, wrth ddilyn ei ddrwg chwant,
Gan gymwys fabwysiadu I Belial rwysg ei blant.

Er pelled oedd Awstralia, daeth ato'r digwydd gwaeth,
Duw cyfiawn. a'i ddeddf uniawn ddanfonodd ato ei saeth *
Daeth ato'r t'wysog angau, wr cadarn mawr ei nerth;
'Doedd meddu drwg ddichellion pryd hwnw fawr o werth.

Nis gall'sai 'i holl ddichellion droi wyneb angau draw;
Fe ddaliodd Wil yn llonydd nes trengodd dan ei law;
Bu farw yngwlad Australia, drwg gyflwr, yn hen langc;
Clywch chwithau'n awr, ieuengtyd, ni thorodd diawl mo'i wangc.

Mae heddyw'n taenu ei rwydau mor gyflym ag erioed
Pe gallech fod yn gyfrwys, gwaith diafol fyddai'n foed,
Ystyriwch, fechgyn ofer, er treio pob rhyw *sgil*,
Na byddwch yn y diwedd un gronyn gwell na Wil.

*Ioan V, 14.

Llanrwst, Argraffwyd gan J. Jones, dros yr Awdwr.